**EITEM AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**20 Hydref 2008**

**ADOLYGIAD PENSIYNAU**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

**Pwrpas yr Adroddiad**

**1.** Cyflwyno i Aelodau sefyllfa ariannol bresennol cynllun Pensiwn Newydd Ymladdwyr Tân. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried effaith y cynllun pensiwn newydd ar y Ddarpariaeth Bensiynau gan yr Awdurdod.

**Trefniadau Ariannu ar gyfer cynllun Pensiwn newydd Ymladdwyr Tân**

**2.** Ar 1 Ebrill 2007 daeth trefniadau ariannu newydd ar gyfer cynllun pensiwn Ymladdwyr Tân i rym. O dan y trefniadau newydd, telir cyfraniadau gweithwyr a chyflogwyr i Gyfrif Pensiwn Ymladdwyr Tân lleol ar wahân a weinyddir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Bydd 'tâl' am unrhyw achos o ymddeol ar sail salwch sy'n digwydd yn y flwyddyn ariannol hefyd yn cael ei dalu i'r cyfrif dros gyfnod o 3 blynedd. Mae pensiynau, lwmp symiau, a budd-daliadau eraill sy'n daladwy o dan y Cynllun Pensiwn Ymladdwyr Tân hefyd yn cael eu talu o'r Cyfrif. Os bydd yr incwm yn llai na'r hyn sy'n mynd o'r cyfrif bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn darparu arian atodol. I'r gwrthwyneb, bydd unrhyw arian dros ben sydd yn y cyfrif yn mynd yn ôl i LlCC. Ar gyfer 2007-2008 swm y Grant Atodol a dalwyd gan LlCC oedd £1,116,000. Ar gyfer 2008-2009 amcangyfrifir y bydd y Grant Atodol yn £3,675,000, mae'r cynnydd mawr oherwydd nifer y taliadau Cymudo i'w talu o fewn y flwyddyn.

**Taliadau Cyfrif Refeniw**

**3.** Telir taliadau anafiadau ac iawndal, rhai presennol a newydd, o gyllideb refeniw yr Awdurdod ac nid y Cyfrif Pensiynau. Mae taliadau salwch hefyd i'r Gronfa Bensiwn yn cael eu talu o'r gyllideb refeniw.

**Darpariaeth Bensiwn**

**4.** Mae newidiadau i'r trefniadau ariannu ar gyfer cynllun pensiwn Ymladdwyr Tân yn golygu nad oes angen cadw darpariaeth bellach i fynd yn erbyn taliadau cymudo a allai fod wedi cael effaith sylweddol ar ofynion y gyllideb mewn rhai blynyddoedd oherwydd yr amrywiadau mewn achosion ymddeol. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod bellach yn atebol i wneud taliadau lwmp swm i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer unrhyw achosion o ymddeol ar sail Salwch, ac er mwyn lliniaru'r effaith ar y gyllideb refeniw mae darpariaeth wedi ei gwneud yn y gyllideb ar gyfer taliadau lwmp swm yn seiliedig ar achosion o ymddeol ar sail salwch yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Balans y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2008 yw £264,937, lleihad sylweddol ar lefelau blaenorol y Ddarpariaeth Bensiwn gan yr Awdurdod yn sgil y lleihad yn lefel atebolrwydd.

**ARGYMHELLIAD**

**5.** Bod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.